


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad Thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru

Hydref 2022

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG46045, ISBN digidol 978-1-80364-898-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a chefndir | Tudalen 2 |
| Crynodeb Gweithredol | Tudalen 6 |
| Methodoleg | Tudalen 10 |
| Asesiad strategol o risg fel sail i ddatblygu gallu | Tudalen 12 |
| Hyfforddiant Cychwynnol (Cam 1) | Tudalen 14 |
| Datblygu i fod yn Gymwys (Cam 2) | Tudalen 18 |
| Cynnal Cymhwysedd (Cam 3) | Tudalen 20 |
| Dadansoddiad o’r amser y mae’n ofynnol i ddiffoddwyr tân ei gael ar gyfer hyfforddiant | Tudalen 20 |
| Dim digon o amser ar gael ar gyfer yr hyfforddiant sydd ei angen | Tudalen 21 |
| Y cydbwysedd rhwng hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol | Tudalen 23 |
| Dim dull safonol na chyson o ymdrin â hyfforddiant ymarferol | Tudalen 24 |
| Pellteroedd teithio i leoliadau hyfforddi’r Gwasanaeth | Tudalen 27 |
| Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol | Tudalen 27 |
| Effaith argaeledd RDS ar hyfforddiant amser llawn | Tudalen 30 |
| Dibyniaeth ar griwiau amser llawn i gefnogi’r RDS | Tudalen 31 |
| Asesu hyfforddiant yn yr orsaf | Tudalen 32 |
| Cydnabyddiaeth | Tudalen 34 |
| Argymhellion | Tudalen 35 |

## Cyflwyniad a chefndir

1. Mae'r Adolygiad Thematig hwn o hyfforddiant yn dilyn yr Adolygiad Thematig o allu'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol i gefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ehangu rôl diffoddwyr tân).

2. Mae rôl diffoddwyr tân yn hynod dechnegol ac mae wedi esblygu'n sylweddol dros amser wrth i gymhlethdodau'r amgylchedd adeiledig gynyddu. Mae'r cyfuniad o adeiladau modern sydd wedi'u dylunio i gadw gwres i mewn a chynnwys synthetig adeiladau modern sydd â chyfraddau rhyddhau gwres sylweddol uwch na'r hen rai, yn arwain at gynnydd mewn tanau sy'n cael eu rheoli gan awyru, sy'n gallu bod yn hynod o beryglus i ddiffoddwyr tân. Fodd bynnag, mae ehangder y digwyddiadau y disgwylir i ddiffoddwyr tân ymateb iddynt bellach yn ymestyn ymhell y tu hwnt i danau, ac yn cwmpasu pob agwedd ar achub technegol ac ymateb deunyddiau peryglus – pob un ohonynt yn ddisgyblaethau cymhleth ynddynt eu hunain.

3. Mae caffael, datblygu a chynnal cymwyseddau craidd yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau systemau gweithio diogel yn yr amgylchedd gweithredol. Mae hyfforddiant cynnal sgiliau yn arbennig o bwysig, yn enwedig gan fod nifer y digwyddiadau wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at lai o gyfleoedd i ddiffoddwyr tân ddefnyddio eu sgiliau mewn sefyllfaoedd go iawn. Efallai fod nifer y digwyddiadau wedi gostwng, ond yn sicr nid yw'r peryglon i ddiffoddwyr tân wedi lleihau.

4. Bydd pwysigrwydd hyfforddiant felly'n amlwg.

5. Mae methu â hyfforddi i safon gyson uchel gan ddefnyddio'r canllawiau gweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn peryglu diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd. Mae hyn wedi bod yn ffactor ym mron i bob marwolaeth diffoddwyr tân a oedd yn gysylltiedig â thân yn y DU dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae Ymchwiliad Tŵr Grenfell eisoes wedi dod i'r casgliad bod methiant Brigâd Dân Llundain i gydnabod perygl tanau cladin a'r angen i wagio adeiladau uchel iawn pan fyddant yn methu mewn sefyllfa o dân, yn debygol o fod wedi cyfrannu at farwolaethau yn y tân hwnnw; mae'r Ymchwiliad yn debygol iawn o ddychwelyd at hyn yn fwy manwl yn yr ail adroddiad a ddisgwylir yn 2023. Rhaid i'r angen i gynnal a darparu trefn hyfforddi gyson o ansawdd uchel fod yn un o'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer unrhyw Wasanaeth Tân ac Achub.

6. Yn yr adolygiad thematig blaenorol, mynegais bryder ynghylch faint o amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau ac ymarfer yn nhrefniadau gwaith presennol mewn gorsafoedd ac yn yr RDS (y System Dyletswydd yn ôl y Galw). Roeddwn yn cydnabod na allwn wneud cyfiawnder â'r mater o fewn cwmpas yr adolygiad hwnnw a'i fod mor bwysig, y byddwn yn cynnal adolygiad annibynnol o hyfforddiant yn syth ar ôl i'r adolygiad ddod i ben.

7. Diben yr adolygiad thematig hwn felly yw archwilio'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn bennaf ar gyfer pennu'r amser a neilltuir ar gyfer hyfforddi ac ymarfer o fewn arferion gwaith gorsafoedd (cynnal cymhwysedd mewn meysydd sgiliau craidd ac ychwanegol) a'r RDS, ond hefyd i ystyried hyfforddiant caffael a datblygu sgiliau cychwynnol (datblygu i fod yn gymwys), gan fod cysylltiad annatod rhwng pob un ohonynt.

8. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y sgiliau craidd ac ychwanegol sydd eu hangen ar ddiffoddwyr tân a rheolwyr goruchwylio (criw a rheolwyr gwylio – y cyfeirir atynt fel swyddogion gwylio yn yr adroddiad hwn). Nid yw'n ystyried yr hyfforddiant ar gyfer asesu cymwyseddau rheoli digwyddiadau rheolwyr canol a rheolwyr strategol, nac ar gyfer rolau arbenigol a gyflawnir fel arfer gan reolwyr canol megis y Swyddog Diogelu'r Amgylchedd a Deunyddiau Peryglus neu'r Cynghorydd Tactegol.

9. Dyma'r wyth maes sgiliau craidd:

1. Cyfarpar Anadlu
2. Gofalu am Gleifion
3. Gorchymyn a Rheoli
4. Deunyddiau Peryglus
5. Pympiau, Ysgolion, Clymau a Llinellau
6. Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd
7. Gweithio mewn mannau uchel
8. Digwyddiadau mewn Dŵr

10. Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub wedi mapio'r sgiliau craidd gan ddefnyddio safonau gwybodaeth a dealltwriaeth (theoretig) Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Sgiliau er Cyfiawnder.

11. Mae'r amleddau ar gyfer asesu yn cael eu pennu gan ddefnyddio methodoleg asesu risg safonol. Mae'r fethodoleg hon yn pennu po fwyaf critigol a chymhleth o ran risg yw'r weithgaredd, y mwyaf aml y dylid ei asesu. Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn defnyddio rhaglen feddalwedd fasnachol o'r enw pdrPro fel eu system cofnodi cymhwysedd. Mae system pdrPro yn gosod amleddau asesu ac yn cysylltu â phecynnau hyfforddi ar gyfer y maes cymhwysedd sydd fel arfer yn cael eu cadw ar System Rheoli Dysgu learnPro, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub.

12. Mae'n ofynnol i swyddogion gwylio drefnu a darparu hyfforddiant ac asesiadau damcaniaethol ac ymarferol yn ôl yr amleddau a nodir yn pdrPro, ac yna cofnodi'r canlyniadau. Mae cynnwys learnPro yn ddamcaniaethol yn bennaf. Mae Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhoi arweiniad ar hyfforddiant ymarferol ac mae hefyd yn rhoi cyfarwyddyd cam wrth gam ar sut i ymgymryd ag arferion safonol ar bympiau, ysgolion, offer gwneud ewyn ac ar gyfer nifer o dechnegau achub. Ar gyfer hyfforddiant ymarferol nad yw wedi'i nodi yn Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub, disgwylir i swyddogion gwylio ddatblygu eu senarios eu hunain. Gall hyn gynnwys diffoddwyr tân yn ymarfer un dacteg neu dechneg mesur rheoli, neu senario lle mae mwy nag un tacteg neu dechneg mesur rheoli yn cael eu hymarfer. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Gwylio yn cynnwys y gofyniad i gynllunio ac asesu gwaith timau ac unigolion (SFJFRSWM1). Fodd bynnag, nid yw pob swyddog gwylio wedi cael hyfforddiant ffurfiol neu wedi ennill cymwysterau ffurfiol mewn datblygu, darparu ac asesu hyfforddiant.

13. Mae enghreifftiau o sgiliau ychwanegol yn cynnwys achub o ddŵr, offer erial a galluoedd Cydnerthedd Cenedlaethol[1] fel Chwilio ac Achub Trefol (USAR), Pympiau Cyfaint Uchel (HVP), Dad-halogi Màs (MD) a Chanfod, Adnabod a Monitro (DIM).

14. Yn wahanol i'r trefniadau ar gyfer sgiliau craidd a nodir uchod, mae gan y galluoedd Cydnerthedd Cenedlaethol eu fframweithiau cynnal cymhwysedd manwl a chynhwysfawr eu hunain, ac mae'r rhain wedi cael eu datblygu gan y Tîm Sicrhau Cydnerthedd Cenedlaethol (NRAT) ar y cyd ag ymarferwyr ac wedi'u cytuno arnynt yn y Gweithgorau Gallu Cenedlaethol. Mae'r fframweithiau cynnal cymhwysedd hyn yn cael eu cefnogi gan adnoddau hyfforddi damcaniaethol ac ymarferol sydd yr un mor gynhwysfawr ar y porth Cydnerthedd Cenedlaethol. Er enghraifft, mae fframwaith cynnal cymhwysedd Chwilio ac Achub Trefol yn tybio dyraniad isafswm amser hyfforddi o 192 awr y flwyddyn yn seiliedig ar astudiaeth o amser a symudiad diffoddwyr tân gan ddefnyddio deunyddiau hyfforddi damcaniaethol ac ymarferol. Mae swyddogion arweiniol galluogrwydd NRAT yn goruchwylio proses sicrhau cymhwysedd ar wahân ar gyfer pob gallu, gydag adroddiadau ar y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Gwasanaethau Tân ac Achub unigol a'r Bwrdd Cydnerthedd Cenedlaethol.

15. Mae gallu'r Gwasanaethau Tân ac Achub i ymateb i achub o ddŵr hefyd yn elwa o ddull strwythuredig o hyfforddi. Mae'n cyd-fynd â Chydsyniad Gweithrediadau Achub Llifogydd DEFRA sy'n defnyddio methodoleg creu tîm. Mae gan bob math o dîm set o sgiliau a chymwyseddau sydd wedi'u pennu ymlaen llaw ac sydd, fel y galluoedd Cydnerthedd Cenedlaethol, hefyd yn cael eu goruchwylio gan NRAT.

16. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r adolygiad ynghyd â nifer o argymhellion i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru eu hystyried. Mae'r argymhellion hyn yn ychwanegol at y ddau argymhelliad interim a wneuthum ar 15 Mawrth mewn gohebiaeth â'r tri Phrif Swyddog Tân ac a ailadroddir yn yr adroddiad hwn. Eglurais yn yr ohebiaeth ar 15 Mawrth fy mod wedi nodi, o'r adolygiad bwrdd gwaith cychwynnol a'r cyfweliadau dilynol, diffyg unrhyw fethodoleg bendant i bennu'r dyraniad amser. Am y rheswm hwn, fe wnes i argymell bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi ac yna i gael eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol a'r amrywiaeth o arferion a thechnegau safonol sy'n rhan o'r meysydd cymhwysedd craidd. Argymhellais fod angen yr un dadansoddiad hefyd ar gyfer meysydd cymhwysedd ychwanegol fel offer ysgol o'r awyr a sgiliau achub technegol uwch.

17. O ystyried pwysigrwydd y mater, penderfynais nad oedd yn briodol gohirio gwneud yr argymhellion hyn tan ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

18. Yn fy ngohebiaeth ar 15 Mawrth, eglurais fod dadansoddiad heb gyfyngiadau yn golygu dadansoddiad sy'n cael ei yrru gan sefydlu'r union amser sy'n ofynnol i roi cyfle priodol i bob diffoddwr tân ymarfer cymwyseddau craidd yn ogystal â chael ei asesu fel unigolyn neu fel rhan o griw mewn amgylchedd sy'n seiliedig ar senarios.

[1] Asedau cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer digwyddiadau arwyddocaol sy'n cael eu hystyried y tu hwnt i allu'r Gwasanaethau Tân ac Achub unigol i ymateb iddynt ar eu pen eu hunain.

Mae hyn yn wahanol i ddadansoddiad sy'n cael ei yrru gan faint o amser contract sydd ar gael ar yr RDS neu drwy gyfyngiadau'r system ddyletswydd shifft bresennol.

19. Atebodd Gwasanaeth Tân ac Achub y De drwy lythyr i gydnabod fy ngohebiaeth, ond nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gamau a gymerwyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub mewn ymateb i'm hargymhellion hyd yma. Mae'r ddau argymhelliad yn sefyll ac fe'u hailadroddir yn yr adroddiad hwn fel Argymhellion 2 (a) a 2 (b).

## Crynodeb Gweithredol

20. Prif amcan yr adolygiad hwn oedd edrych ar y fethodoleg a fabwysiadwyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i bennu'r amser sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau ac ymarfer yn nhrefniadau gwaith gorsafoedd. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad bwrdd gwaith cychwynnol oedd mai dim ond un Gwasanaeth Tân ac Achub oedd wedi cynnal dadansoddiad o'r amser sy'n ofynnol ar gyfer hyfforddi ac ymarfer. Mewn ymateb, cyhoeddais ddau argymhelliad interim sydd wedi'u nodi yn yr adran Cyflwyniad a chefndir yn yr adroddiad hwn ac sy'n cael eu hailadrodd eto fel Argymhellion gwirioneddol 2(a) a 2(b).

21. Rhoddais gafeat gyda'r argymhellion hyn yn nodi'r amod na ddylai unrhyw ddadansoddiad gael ei gyfyngu gan yr amser cyswllt sydd ar gael ar yr RDS neu gyfyngiadau'r system shifftiau bresennol. Penderfynais gynnwys yr amod hwn oherwydd fy mod o'r farn bod yr un dadansoddiad a wnaed hyd yn hyn wedi'i wneud felly gyda'r amcan o gyflwyno'r achos dros gynyddu'r amser cyswllt ar yr RDS o 2 awr i'r uchafswm o 3 awr, fel y'i cynhwysir yn y Llyfr Llwyd. Er y dylid rhoi clod i'r amcan hwn, nid yw, yn fy marn i yn seiliedig ar brofiad blaenorol, yn arwain at ganlyniad sy'n nodi ac yn sicrhau'r amser hyfforddi ac asesu y mae ei angen mewn gwirionedd ar gyfer cynnal sgiliau.

22. Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw gynnydd wedi'i wneud yn unol â'r argymhellion hyn. Hyd nes, ac oni bai bod y Gwasanaethau Tân ac Achub yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser gwirioneddol sydd ei angen i roi digon o amser i ddiffoddwyr tân ymarfer a chael eu hasesu'n ystyrlon ym mhob maes sgiliau craidd ac ychwanegol, nid yw'n bosibl cynnig barn bendant sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch a oes digon o hyfforddiant ac ymarfer yn cael ei wneud ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ar bob un o'r tair system ddyletswydd.

23. Yn bersonol, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod digon o amser hyfforddi ar gael i ddiffoddwyr tân sy'n rhan o'r system shifftiau neu'r RDS.

24. Elfen sylweddol o'r adolygiad oedd yr ymweld â gorsafoedd. Siaradais â nifer o swyddogion gwylio cydwybodol iawn sy'n amlwg yn rhoi llawer o amser ac ymdrech i hyfforddi ac asesu'r diffoddwyr tân y maent yn eu goruchwylio. O ran y swyddogion gwylio sy'n gweithio ar sail shifftiau, os ydynt yn ymgymryd â hyfforddiant yn ychwanegol at y dyraniadau amser a sefydlwyd drwy Ehangu'r adolygiad thematig rôl fel yr awgrymwyd i mi ar un ymweliad â'r orsaf, yna rhaid i hyn fod ar draul gweithgarwch lleihau risg. Gallaf ddweud hynny'n hyderus oherwydd mai dim ond hyn a hyn o amser sydd ar gael o fewn cyfyngiadau'r system shifftiau bresennol.

25. Tystiolaeth gyfyngedig yn unig a welais o ddull hyfforddi ac asesu ymarferol a oedd yn gyson ac yn safonol o fewn neu ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn fy marn i, byddai mwy o safoni yn gymorth mawr i swyddogion gwylio sy'n darparu hyfforddiant ac i swyddogion sy'n gyfrifol am Sicrwydd Gweithredol.

26. Mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub yn defnyddio system cofnodi cymhwysedd pdrPro i weithredu dull seiliedig ar risg o hyfforddi ac asesu. Mae hyn yn gysylltiedig â System Rheoli Dysgu learnPro sy'n cynnwys pecynnau hyfforddiant damcaniaethol yn bennaf, ac mae gan rai ohonynt asesiad gwybodaeth a dealltwriaeth parod. Prin yw'r

adnoddau hyfforddi ymarferol/seiliedig ar senarios sydd ar gael i swyddogion gwylio y tu hwnt i'r rheini sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

27. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y De wedi datblygu canllawiau cynhwysfawr sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch cynnwys senarios at ddibenion asesu. Mae hon yn sylfaen dda ond mae angen canllawiau mwy penodol ochr yn ochr â chyfres o adnoddau hyfforddi ymarferol, er mwyn sicrhau hyfforddiant ac asesiad cyson a safonol ar y safle.

28. Mae hyfforddwyr Cyfarpar Anadlu Gwasanaeth Tân ac Achub y De hefyd wedi datblygu cyfres o sefyllfaoedd hyfforddi ymarferol byr o'r enw gwersi micro. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd wedi datblygu adnoddau tebyg. Mae gwersi micro yn adnodd rhagorol y dylid ei ddatblygu ymhellach i ddarparu adnoddau hyfforddi ar gyfer pob tacteg, techneg a senario mesur rheoli ymarferol.

29. Mae gan adnoddau o'r fath y potensial i gael eu datblygu ymhellach, a gellid eu defnyddio wedyn fel sail ar gyfer astudiaeth amser a symud i benderfynu, ar sail tystiolaeth empirig, faint o amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddi ac asesu. Bydd hyn o fudd arbennig i'r RDS lle mae'r amser cyswllt yn amlwg wedi'i gyfyngu.

30. Ar ôl i'r Gwasanaethau Tân ac Achub gael y dystiolaeth empirig hon, gallant ei defnyddio i flaenoriaethu pa dactegau a thechnegau mesur rheoli ddylai gael eu defnyddio gan griwiau RDS, yn seiliedig ar yr union amser sydd ei angen o'i gymharu â'r amser sydd ar gael. Rwy'n cydnabod y bydd tactegau a thechnegau mesur rheoli na fydd criwiau RDS yn cael eu hyfforddi arnynt, gan ei bod yn annhebygol iawn y bydd digon o amser ar gael i ymdrin â'r holl dactegau a thechnegau mesur rheoli presennol.

31. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r disgwyliad presennol ac, yn fy marn i, afrealistig y gall diffoddwyr tân RDS gynnal cymhwysedd ar draws yr ystod lawn o feysydd sgiliau craidd ac ychwanegol gyda dim ond 2-3 awr o amser cyswllt bob wythnos. Fodd bynnag, byddai'n golygu bod angen adolygu asesiadau risg strategol y Gwasanaethau Tân ac Achub er mwyn penderfynu pa dactegau a thechnegau mesur rheoli y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer yr RDS, a pha dechnegau mesur rheoli fyddai'n cael eu gwneud gan ddiffoddwyr tân amser llawn yn unig. Rwyf yn cydnabod y byddai hyn hefyd yn golygu bod yn rhaid ailystyried maint y gallu'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ymateb, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n cael eu gwasanaethu gan orsafoedd RDS yn unig ar hyn o bryd.

32. Er gwaethaf eu hymdrechion gorau, mae argaeledd RDS yn sicr yn her sylweddol mewn dau o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub, fel y mae ledled y DU. Yn ddaearyddol, mae canolfannau poblogaeth Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd a Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn fwy gwasgaredig nag yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y De, sy'n gallu manteisio'n well ar argaeledd diffoddwyr tân amser llawn i ymgymryd â dyletswyddau RDS, sy'n lluosydd grym go iawn, ac yn amlwg yn gwella argaeledd. Nid oes amheuaeth bod hyn yn cael ei gymell gan gynllun cyflog arloesol sy'n cael ei weithredu yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y De, ac sy'n amlwg yn gweithio'n dda i'r Gwasanaeth.

33. Mae gan y broblem argaeledd oblygiadau y tu hwnt i'r hyn sy'n ymwneud â chynnal y ddarpariaeth ymateb. Nodwyd bod effaith argaeledd RDS ar hyfforddiant cynnal sgiliau criwiau amser llawn yn broblem, yn fwyaf nodedig yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd. Y rheswm am hyn yw bod criwiau amser llawn yn cael eu hanfon yn fyr rybudd i fod wrth gefn er mwyn gwasanaethu ardaloedd RDS, sy'n effeithio ar hyfforddiant a gweithgarwch lleihau risg a oedd wedi'u trefnu.

34. Yn fy marn i, nid oes ateb realistig i'r her argaeledd y tu hwnt i gynyddu nifer y criwiau amser llawn sydd ar gael ar gyfer rhywfaint o'r cyfnod 24 awr bob dydd, neu'r 24 awr cyfan. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn credu sy'n haeddu cael ei ystyried yn ddifrifol gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a ledled y DU.

35. Mater arall o bryder gwirioneddol a godwyd wrth ymweld â gorsafoedd oedd Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol nad oedd yn adlewyrchu'r realiti y mae diffoddwyr tân yn eu hwynebu mewn digwyddiadau go iawn.

36. Mae'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol sy'n sail i Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol yn seiliedig ar ymchwil sydd bellach bron yn ddeg ar hugain oed. Mae cyfraddau rhyddhau gwres llawer o danau mewn adrannau heddiw yn llawer uwch na'r rheini ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Mae hyn yn cael ei waethygu gan yr hyn sy'n ymddangos o dystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd ar ymweliadau â gorsafoedd yn ymwneud â defnyddio riliau pibell gwasgedd uchel gyda llif dŵr isel yn hytrach na phrif ganghennau gyda llif dŵr llawer uwch, weithiau ar y cyd ag awyru tactegol a all gynyddu twf tân a chyfraddau rhyddhau gwres yn sylweddol. Y canlyniad yw anallu i ddiffodd tanau sydd wedi'u datblygu'n llawn, rhoi diffoddwyr tân a'r cyhoedd mewn perygl, a chynyddu'r risg o ddifrod difrifol i eiddo. Yn fy marn i, rhaid rhoi sylw i hyn fel blaenoriaeth.

37. Mae'r adolygiad presennol o'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol – Tanau a diffodd tân, a'r dystiolaeth empirig helaeth sydd ar gael mewn gwaith ymchwil rhyngwladol, yn rhoi cyfle i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ailedrych ar eu technegau a'u tactegau mesur rheoli ar gyfer mynd i'r afael â thanau adrannol. Fodd bynnag, ni fydd yn mynd i'r afael â'r her sylweddol o geisio ail-greu amodau tân modern go iawn mewn cyfleusterau hyfforddi presennol heb fuddsoddiad cyfalaf sylweddol.

38. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith bod y pellteroedd teithio i gyrraedd lleoliadau presennol cyfleusterau Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol yn ormod i rai criwiau mewn dau o'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'n bosibl mai'r ateb fyddai defnyddio model prif ganolfan a lloerennau, fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, a byddai heriau amgylcheddol i hyn hefyd. Fodd bynnag, mae rhai atebion propiau hyfforddi ar gael i'r Gwasanaethau Tân ac Achub sydd â chost isel ac sy'n amgylcheddol niwtral, a chyfeiriaf atynt yn yr adroddiad hwn.

39. Rwyf yn gwneud saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn, a fyddai yn fy marn i, pe gweithredir arnynt, yn cyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â'r hyn yr wyf yn eu cydnabod sy'n heriau sylweddol iawn i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ac na ddylid eu diystyru.

**Argymhelliad 1**: bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn sefydlu dull o ddadansoddi anghenion hyfforddi a darparu hyfforddiant sy'n cyd-fynd yn glir ag

asesiad rheolaidd o beryglon, risgiau a bygythiadau yn eu hardaloedd. Dylai hwn nodi'r gallu y bernir ei fod yn angenrheidiol i ddarparu ymateb priodol i'r peryglon, y risgiau a'r bygythiadau a nodwyd, a ddylai wedyn fod yn sail i'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi.

*__Argymhelliad 2 (a)__: bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi ac yna i gael eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol a'r amrywiaeth o arferion a thechnegau safonol sy'n rhan o'r meysydd cymhwysedd craidd.

*__Argymhelliad 2 (b)__: bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi ac yna i gael eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol a'r amrywiaeth o arferion a thechnegau safonol sy'n rhan o'r meysydd cymhwysedd ychwanegol.

**Argymhelliad 3**: dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddefnyddio canlyniad y dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau i flaenoriaethu'r tactegau a'r technegau mesur rheoli o'u Hasesiadau Risg Gweithredol a fydd yn cael eu defnyddio gan yr RDS ar sail yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant.

**Argymhelliad 4**: dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddatblygu gwersi micro ar gyfer pob tacteg neu dechneg mesur rheoli nad yw eisoes wedi'i chynnwys yn Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

**Argymhelliad 5**: bod Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn adolygu eu tactegau mesur rheoli ar gyfer diffodd tanau mewn adrannau yng ngoleuni ymchwil ryngwladol, ac yn diweddaru eu tactegau a'u technegau mesur rheoli yn unol â hynny.

**Argymhelliad 6**: bod Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn adolygu eu maes llafur Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol i ymgorffori unrhyw newidiadau i dactegau mesur rheoli sy'n deillio o'r adolygiad sy'n cael ei grybwyll yn Argymhelliad 5.

## Methodoleg

40. Ysgrifennais at y tri Prif Swyddog Tân ar 10 Ionawr yn dweud fy mod yn bwriadu cynnal adolygiad thematig o hyfforddiant, a gofyn iddynt enwebu un pwynt cyswllt yn eu Gwasanaethau Tân ac Achub y gallwn gysylltu ag ef i gael gafael ar ddogfennau polisi i lywio'r adolygiad. Rwyf hefyd wedi nodi mewn dogfen ar wahân y fethodoleg roeddwn i'n bwriadu ei defnyddio yn yr adolygiad ynghyd â'r sail resymegol. Mae copi o'r ddogfen methodoleg ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

41. Mae rhan gyntaf yr adolygiad yn edrych ar yr hyn sy'n llywio polisi hyfforddi'r Gwasanaethau Tân ac Achub ac yn benodol pa asesiad strategol cyfnodol o risg, os o gwbl, sy'n cael ei gynnal i bennu galluoedd y Gwasanaethau Tân ac Achub y mae'r angen am hyfforddiant yn deillio ohonynt. Er enghraifft, mae'n ofynnol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr nodi ac asesu'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â thân ac achub, ac yna rhoi trefniadau ar waith i atal a lliniaru risgiau o'r fath drwy ddatblygu galluoedd priodol, ymysg camau gweithredu eraill. Mae'n dilyn, pan fydd y galluoedd gofynnol wedi'u nodi, y dylid cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi fel rhan annatod o ddatblygu'r gallu hwnnw.

42. Mae ail ran yr adolygiad yn edrych ar y broses o feithrin sgiliau (Cam 1), datblygu sgiliau (Cam 2 – datblygu i fod yn gymwys drwy gyflawni'r brentisiaeth diploma neu gymhwyster cyfatebol) a chynnal sgiliau (Cam 3). Yn elfen cynnal sgiliau yr adroddiad y mae'r cynnwys mwyaf sylweddol, gan mai dyma brif ffocws yr adolygiad.

43. Mae rhan olaf yr adolygiad yn edrych ar y mecanweithiau sydd ar waith i roi sicrwydd bod hyfforddiant ar y safle yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod diffoddwyr tân wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddelio'n ddiogel â'r holl risgiau y gellir eu rhagweld.

44. Yn gyntaf, cynhaliais i a'r Cynghorydd Cynorthwyol adolygiad bwrdd gwaith o'r dystiolaeth gynhwysfawr a gyflwynwyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub. Yna, gwnaethom gynnal cyfres o gyfweliadau dilynol gyda'r swyddogion arweiniol ar gyfer hyfforddiant. Ar ôl y cyfweliadau dilynol hyn, ysgrifennais at y Prif Swyddogion Tân i nodi'r ddau argymhelliad interim a soniwyd amdanynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Wedyn, aethom ati i gyflawni elfen gwaith maes yr adolygiad.

45. Roedd ein gwaith maes yn cynnwys yr ymweliadau canlynol â gorsafoedd:

| **System Shifftiau Amser Llawn***<br><br>* 2 x shifft dydd 9 awr, ac yna 2 x shifft nos 15 awr, ac yna 4 diwrnod i ffwrdd | **Criwiau Dydd Llawn Amser***<br><br>* 4 x shifft dydd gyda phob shifft dydd yn cael ei dilyn yn syth gan gyfnod wrth gefn, ac wedyn 4 diwrnod i ffwrdd | **RDS***<br><br>* diffoddwyr tân ar alwad sy'n darparu hyd at 120 awr wrth gefn yr wythnos i ymateb i ddigwyddiadau, ac sydd fel arfer yn byw o fewn 5 munud i orsaf |
|---|---|---|
| Castell-nedd | Aberystwyth | Rhaeadr Gwy |
| Trelái | Bae Colwyn | Treorci |
| New Inn | | Y Fflint |
| Rhyl | | |

46. Cafodd y gorsafoedd eu dewis gan y Gwasanaethau Tân ac Achub i gynnwys criwiau shifftiau, y criw dydd a'r RDS. Gan nad yw Gwasanaeth y De yn gweithredu'r system dyletswydd criwiau dydd, ymwelwyd â dwy orsaf â chriw shifftiau ac un orsaf â chriw system RDS. Roedd yr ymweliadau'n cynnwys trafodaethau gyda'r criwiau ar ddyletswydd ynghylch pob agwedd ar hyfforddiant, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar hyfforddiant ymarferol a oedd yn cael ei gynnal yn yr orsaf. Er bod y trafodaethau'n ymwneud ag ystod eang o feysydd sgiliau, yn amrywio o achub technegol i reoli digwyddiadau, llwyddais i sicrhau cysondeb drwy ofyn cwestiynau yn ymwneud yn benodol â diffodd tân yn dactegol, cyfarpar anadlu a Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol. Ar bob ymweliad, ac eithrio'r Rhyl, roedd naill ai'r Cynghorydd Cynorthwyol neu o leiaf un aelod o Gangen Gwasanaethau Tân Llywodraeth Cymru gyda mi.

47. Daeth yr adolygiad i ben gyda chyfweliadau terfynol gyda swyddogion arweiniol y swyddogaethau Hyfforddiant a Sicrwydd Gweithredol ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub, yn bennaf er mwyn cadarnhau cywirdeb y dystiolaeth roeddem wedi'i chasglu.

## Asesiad strategol o risg fel sail i ddatblygu gallu

48. Yn wahanol i fersiwn Lloegr, nid yw Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub nodi ac asesu'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â thân ac achub, ac yna rhoi trefniadau ar waith i atal a lliniaru risgiau o'r fath drwy ddatblygu galluoedd priodol, ymysg camau gweithredu eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei ystyried i'w gynnwys yn fersiwn nesaf y Fframwaith, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023. Pa un bynnag, mae gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru (ynghyd â'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr) eisoes ddyletswyddau statudol yn hyn o beth o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

49. Fel arfer, bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr yn creu Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol sy'n nodi'n fanwl sut byddant yn bodloni'r gofyniad hwn.

50. Mae gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ffrwd waith Rheoli Risgiau Cymunedol gyda'r nod o ddatblygu pecyn cymorth digidol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer asesu risg a gwendidau sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU er mwyn gwella diogelwch, iechyd, llesiant a ffyniant economaidd cymunedau. Y bwriad yw y bydd y pecyn yn darparu dull cyson o ddatblygu Cynlluniau Rheoli Risgiau Cymunedol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr. Mae'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol hefyd yn cynnwys 'Canllawiau corfforaethol ar gyfer gweithgarwch gweithredol' sy'n cael eu darparu i bob Gwasanaeth Tân ac Achub yn y DU.

51. Mae Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol yn fan cychwyn da i Wasanaeth Tân ac Achub nodi canfyddiadau ei asesiad risg strategol ynghyd â'r mesurau rheoli strategol y mae'n bwriadu eu defnyddio i liniaru'r risgiau a nodwyd. Un o'r mesurau rheoli strategol pwysig, ochr yn ochr â gweithgarwch atal a diogelu, yw gallu'r Gwasanaethau Tân ac Achub i ymateb. Mae'r gallu hwn yn arwain at angen hyfforddi sylweddol, y dylid ei bennu drwy ddadansoddi anghenion hyfforddi o bryd i'w gilydd.

52. Mae pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn creu Cynlluniau Strategol Tymor Canolig a Chynllun Gwella Blynyddol neu gyfatebol. Dylai unrhyw gynllun neu ddatganiad strategol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub fod yn seiliedig ar y peryglon, y risgiau a'r bygythiadau yn ei ardal ar hyn o bryd a rhai sy'n debygol yn y dyfodol. Dylai fod yn sail i gaffael a defnyddio adnoddau, a datblygu a chynnal sgiliau a galluoedd diffoddwyr tân drwy hyfforddiant.

53. Mae Cynlluniau Strategol Gwasanaethau Tân ac Achub y Gogledd a'r De yn cynnwys amcanion sy'n ymwneud â hyfforddiant ond nid oes ymrwymiad penodol i ddatblygu Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol strategol. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub y De wedi datblygu Cynlluniau Rheoli Risgiau Cymunedol ar gyfer pob gorsaf fel rhan o'u cylch cynllunio busnes blynyddol, ond nid ydynt wedi cynhyrchu Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol ar gyfer y gwasanaeth cyfan gan nad oes angen iddynt wneud hynny.

54. Mae Cynllun Gwella Busnes Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin 2022/23 yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda erbyn hyn i ddatblygu methodoleg sy'n canolbwyntio ar y gallu i ymateb.

55. Mae'r fethodoleg arfaethedig yn ystyried Asedau (gorsafoedd, offer, seilwaith), Darpariaeth (beth yw'r gallu i'w gyflawni) a Phobl (sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd sydd eu hangen i gyflawni'r ddarpariaeth a ddymunir).

56. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldeb o dan Reoliad 3 o'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i gynhyrchu asesiadau risg addas a digonol, dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddefnyddio'r datganiadau rheoli peryglon a risgiau gyda'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol i lywio eu Hasesiadau Risg Gweithredol lleol ar gyfer pob math o ddigwyddiadau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Fel arfer, gall Asesiadau Risg Gweithredol fod ar ffurf Gweithdrefn Weithredol Safonol, a dylent ddarparu gwybodaeth am beryglon a manylu ar y tactegau a'r technegau mesur rheoli a fydd yn cael eu defnyddio gan ddiffoddwyr tân i ddatrys y math o ddigwyddiad dan sylw yn ddiogel. Mae hyd a lled y tactegau a'r technegau mesur rheoli hyn yn pennu'r gallu sydd yn y pen draw yn ffurfio darpariaeth ymateb y Gwasanaethau Tân ac Achub.

57. Mae Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Reoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn gosod cyfrifoldebau ar y Gwasanaethau Tân ac Achub o ran cynllunio effeithiol, trefnu, rheoli, monitro ac adolygu mesurau ataliol a amddiffynnol gan gynnwys, yn y cyd-destun hwn, eu Hasesiadau Risg Gweithredol/Gweithdrefnau Gweithredol Safonol a bennir yn ôl yr angen er mwyn bodloni'r risg a nodwyd.

58. Yn fy marn i, mae'r fframwaith Asedau, Darpariaeth a Phobl yn darparu sylfaen gadarn i ddatblygu dealltwriaeth briodol o risgiau, i gynllunio ar eu cyfer ac i drefnu'r systemau gwaith diogel sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw, boed hynny'n cael ei ddatblygu fel Cynllun Rheoli Risgiau cymunedol ai peidio, gyda'r elfennau Darpariaeth a Phobl yn cyfrannu'n uniongyrchol at y dadansoddiad o anghenion hyfforddi. Mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin hefyd yn cynrychioli fframwaith cadarn ar gyfer ystyried y gallu i ymateb.

59. Mae'r elfennau o ran monitro ac adolygu'r cyfrifoldeb yn Rheoliad 5 yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 1**: **bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn sefydlu dull o ddadansoddi anghenion hyfforddi a darparu hyfforddiant sy'n cyd-fynd yn glir ag asesiad rheolaidd o beryglon, risgiau a bygythiadau yn eu hardaloedd. Dylai hwn nodi'r gallu y bernir ei fod yn angenrheidiol i ddarparu ymateb priodol i'r peryglon, y risgiau a'r bygythiadau a nodwyd, a ddylai wedyn fod yn sail i'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi.**

## Hyfforddiant Cychwynnol (Cam 1)

60. Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Sgiliau er Cyfiawnder i ddatblygu rhaglen brentisiaeth diploma Cymru gyfan ar gyfer diffoddwyr tân sy'n cael ei darparu mewn colegau ar draws y tair ardal Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub wedi ymrwymo i gytundeb is-gontractwr darparwr dysgu seiliedig ar waith gyda'u coleg lleol, sy'n caniatáu iddynt gael cyllid o ardoll prentisiaethau Llywodraeth Cymru.

61. Gan nad yw'r hen gymhwyster NVQ Lefel 3 Gweithrediadau yn y Gymuned yn cael ei gefnogi bellach gan Sgiliau er Cyfiawnder, mae'r model Cymru gyfan nawr yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr.

62. Ar gyfer diffoddwyr tân RDS sy'n datblygu, mae tystysgrif bersonol newydd Sgiliau er Cyfiawnder wedi cael ei datblygu gan Wasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin, sy'n cyd-fynd â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

63. Mae'r cymhwyster pwrpasol hwn wedi cael ei greu i ysgafnhau'r baich gweinyddol ar ddiffoddwyr tân RDS sy'n datblygu a'u rheolwyr goruchwylio, ac i fynd i'r afael â'r mater nad yw'r cymhwyster blaenorol bellach yn cael ei gefnogi gan Sgiliau er Cyfiawnder.

64. Mae diffoddwyr tân amser llawn yn dilyn cwrs cychwynnol 13 wythnos gyda Gwasanaeth Tân ac Achub y De a chwrs cychwynnol 14 wythnos gyda Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd, gan gynnwys cofrestru ar gyfer prentisiaethau, sy'n cynnwys caffael y sgiliau craidd canlynol:

- Diffodd tân sylfaenol
- Cwrs Cyfarpar Anadlu cychwynnol yn cynnwys technegau awyru tactegol[2]
- Atal trawma cychwynnol (system lywodraethu glinigol drwy Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru)
- Cwrs cychwynnol Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd gan gynnwys gweithredu winsh
- HAZMAT cychwynnol
- Ymatebydd cyntaf mewn dŵr (Math D/E)
- Achub bariatrig (nid ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub)
- Lefel 1 gweithio mewn mannau uchel
- Diffodd tân ar y môr (mewnbwn theoretig)
- Egwyddorion iechyd a diogelwch

65. Mae Diffoddwyr Tân amser llawn hefyd yn cael mewnbwn ar y meysydd canlynol:

---

[2] Mae Diffoddwyr Tân Amser Llawn sy'n datblygu yn cael eu dosbarthu fel gwisgwyr datblygu Cyfarpar Anadlu nes eu bod wedi cwblhau ailasesiad Cyfarpar Anadlu ffurfiol yn llwyddiannus, sy'n cael eu cynnal o fewn 24 mis i'r cwrs cychwynnol. Mae'r dosbarthiad datblygu yn gosod cyfyngiadau penodol ar y dyletswyddau y gallant eu cyflawni

- Codi a chario
- Trais yn erbyn menywod
- Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Grŵp 1 a 2
- Gofynion deddfwriaethol Deddf yr Iaith Gymraeg

66. Mae sgrinio ar gyfer dyslecsia a niwroamrywiaeth yn cael ei gynnwys yn ystod hyfforddiant cychwynnol ac yn cael ei gefnogi ochr yn ochr â rhaglen hyfforddiant ffitrwydd. Bydd unrhyw sgiliau ychwanegol megis technegydd achub cyflym o ddŵr, gweithredwr cychod achub, gweithredwr offer erial ac ati, yn cael eu hennill pan fydd y diffoddwyr tân sy'n datblygu yn cael eu rhoi mewn gorsafoedd sy'n cynnal y gallu.

67. Mae hyfforddiant caffael sgiliau cychwynnol ar gyfer diffoddwyr tân RDS sy'n datblygu yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio dull modiwlaidd i adlewyrchu'r gwahaniaethau contract gyda'u cymheiriaid amser llawn.

68. Ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, bydd diffoddwyr tân RDS sy'n datblygu yn mynychu'r cyrsiau caffael cychwynnol canlynol naill ai yn ystod yr wythnos neu dros y penwythnos:

- Sgiliau diffodd tân sylfaenol cychwynnol
- Gwisgo Cyfarpar Anadlu[3]
- Gwrthdrawiad traffig ar y ffordd
- IEC cychwynnol

69. Ar ôl pob cam, mae diffoddwr tân RDS sy'n datblygu yn dychwelyd i'w waith yn ei orsaf gartref yn cyflawni rolau â gallu cyfyngedig fel y bo'n briodol. Mae gan bob Gwasanaeth Tân ac Achub ei feini prawf ei hun o ran ar ba gam yn y broses hon y gellir dosbarthu'r diffoddwr RDS sy'n datblygu fel adnodd effeithiol i gynnal y cyfarpar sydd ar gael.

**<u>Hyfforddiant caffael cychwynnol RDS Gwasanaeth Tân ac Achub y De</u>**

70. Mae rhaglen hyfforddiant caffael cychwynnol RDS Gwasanaeth Tân ac Achub y De yn cynnwys 2 fodiwl.

- Mae Modiwl 1 yn gwrs sgiliau diffodd tân sylfaenol 10 diwrnod sy'n cael ei gynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener dros gyfnod bythefnos. Mae Modiwl 2 yn gwrs 10 diwrnod i wisgwyr Cyfarpar Anadlu sydd hefyd yn cael ei gynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener dros gyfnod o bythefnos.

  Mae mewnbwn awyru pwysedd positif wedi'i gynnwys yn y cwrs Cyfarpar Anadlu cychwynnol ac mae'n ymestyn i ymosodiad pwysedd positif. Mae diffoddwyr tân sy'n datblygu hefyd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Byrddau Rheoli Mynediad Cyfarpar Anadlu (BAECB) fel Gweithredwyr Rheoli Mynediad (ECO).

---

[3] Mae Diffoddwyr Tân RDS sy'n datblygu yng Ngwasanaeth y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth y De yn cael eu dosbarthu fel gwisgwyr datblygu Cyfarpar Anadlu nes eu bod wedi cwblhau ailasesiad Cyfarpar Anadlu ffurfiol yn llwyddiannus, sy'n cael eu cynnal o fewn 24 mis i'r cwrs cychwynnol. Mae'r dosbarthiad datblygu yn gosod cyfyngiadau penodol ar y dyletswyddau y gallant eu cyflawni

- Ar ôl cwblhau modiwl 1, mae diffoddwyr tân sy'n datblygu yn datblygu sgiliau yn yr orsaf a thrwy fynychu'r cyrsiau ychwanegol canlynol dros y cyfnod o 24 mis:

  - Gwrthdrawiad traffig ar y ffordd - 4 diwrnod dros 2 benwythnos
  - Trawma – 2 ddiwrnod
  - Achub o ddŵr (Math D/E)

**<u>Hyfforddiant caffael cychwynnol RDS Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin</u>**

71. Roedd diffoddwyr tân RDS sy'n datblygu yn arfer gorfod cwblhau tair uned 'weithredol/ymarferol' o Ddyfarniadau Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder Lefel 3 – Diploma NVQ mewn Gweithrediadau Gwasanaethau Tân Brys yn y Gymuned (Uned D 6014078, Uned H 6014079 ac Uned 6014077).

72. Mae'r garfan ddiweddaraf o ddiffoddwyr tân sy'n datblygu wedi gweld cynrychiolwyr yn trosglwyddo i dystysgrif bersonol newydd Sgiliau er Cyfiawnder sydd wedi cael ei chreu gan Wasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin, sy'n cyd-fynd â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

73. Mae hyfforddiant caffael cychwynnol RDS Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn cynnwys dau fodiwl sy'n cael eu cwblhau dros 17 diwrnod, fel arfer dros gyfnod o fis.

- Cwrs sgiliau diffodd tân sylfaenol 13 diwrnod yw Modiwl 1 sy'n cynnwys 1 x 3 diwrnod (dydd Gwener-dydd Sul) a 2 x 5 diwrnod (dydd Llun-dydd Gwener).

- Mae Modiwl 2 yn gwrs 4 Diwrnod Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffordd (dydd Gwener-dydd Llun).

- Ymgymerir â chwrs Cyfarpar Anadlu o fewn 12 mis i gwblhau'r hyfforddiant cychwynnol.

- Cynhelir cwrs Trawma Tân y tu allan i'r cwrs hyfforddi cychwynnol ac fel arfer o fewn 12 mis i gwblhau'r hyfforddiant cychwynnol.

**<u>Hyfforddiant caffael cychwynnol RDS Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd</u>**

74. Mae rhaglen hyfforddiant caffael cychwynnol RDS Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd yn cynnwys tri modiwl.

- Mae Modiwl 1 yn gwrs sgiliau diffodd tân sylfaenol 6 diwrnod sy'n cael ei gynnal o ddydd Sul i ddydd Gwener.

- Mae Modiwl 2 yn gwrs 10 diwrnod i wisgwyr Cyfarpar Anadlu sy'n cael ei gynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener dros gyfnod o bythefnos. Mae'r cwrs hwn yn gwrs preswyl ac mae'n cynnwys ymrwymiadau gyda'r nos i ddarparu amser cyswllt hyfforddiant hirach. Ar ôl cwblhau'r cwrs Cyfarpar Anadlu, tybir bod gwisgwyr yn gymwys ac ni roddir unrhyw gyfyngiad ar allu.

- Ar hyn o bryd, mae Modiwl 3 yn gwrs Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffyrdd 3 diwrnod, ond o fis Medi 2022 ymlaen bydd hwn yn cael ei ymestyn i bedwar diwrnod.

75. Mae unrhyw sgiliau sy’n benodol i orsafoedd yn cael eu hennill yn y gorsafoedd, sy’n cyd-fynd â’r rhaglen darparu hyfforddiant arferol.

## Datblygu i fod yn gymwys (Cam 2)

76. Mae diffoddwyr tân amser llawn yn dilyn y cwrs hyfforddi cychwynnol 13/14 wythnos am gyfnod o 24 mis lle disgwylir i'r diffoddwr tân symud o fod yn datblygu i fod yn gymwys, a thrwy hynny, gyflawni'r brentisiaeth diploma.

77. Mae cerrig milltir wedi'u pennu bob chwe mis dros y 24 mis. Mae cwblhau pob carreg filltir yn llwyddiannus yn hanfodol er mwyn cwblhau'r brentisiaeth diploma.

### Gwasanaeth Tân ac Achub y De

78. Mae diffoddwyr tân amser llawn sy'n datblygu yn gwneud asesiadau bob chwarter er mwyn cwblhau'r brentisiaeth diploma.

79. Mae diffoddwyr tân RDS sy'n datblygu yn gwneud yr asesiadau thematig chwe misol canlynol;

6 mis - Sgiliau Craidd
12 mis - Sgiliau Craidd
18 mis - Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd
24 mis - Cyfarpar Anadlu

80. Mae cwblhau'r asesiadau priodol yn llwyddiannus gan aseswyr yn galluogi'r diffoddwr tân sy'n datblygu i gael ei ystyried yn gymwys ac ennill y radd diploma.

### Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin

81. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn gosod gerrig milltir bob chwe mis dros y cyfnod o 24 mis ar gyfer diffoddwyr tân amser llawn a RDS sy'n datblygu.

Asesiad 6 mis – 1 diwrnod, cynnydd mewn sgiliau diffodd tân ymarferol gan gynnwys prawf gwybodaeth ddamcaniaethol.
Asesiad 12 mis – 1 diwrnod, cynnydd mewn sgiliau diffodd tân ymarferol gan gynnwys prawf gwybodaeth ddamcaniaethol.
Asesiad 18 mis – 1 diwrnod, cynnydd mewn sgiliau diffodd tân ymarferol gan gynnwys prawf gwybodaeth ddamcaniaethol.
Asesiad 24-mis – 2 ddiwrnod, gorffen elfennau heb eu cwblhau o unedau 2-6 Sgiliau er Cyfiawnder, asesiadau ymarferol a theoretig terfynol cyn cael eu dyfarnu'n gymwys yn y rôl.

82. Mesurir cynnydd yn y rhaglen ddatblygu 6-24 mis gan ddefnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

83. Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus, bydd diffoddwyr tân amser llawn sy'n datblygu yn ennill y radd diploma tra bydd diffoddwyr tân RDS sy'n datblygu yn ennill y dystysgrif bersonol Sgiliau er Cyfiawnder. Mae'r broses asesu yn cael ei goruchwylio o'r caffael cychwynnol hyd at ddangos cymhwysedd gan hyfforddwyr cymwys o fewn yr Adran Darparu Hyfforddiant.

**Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd**

84. Ar gyfer diffoddwyr tân amser llawn, pennir cerrig milltir bob chwe mis yn ystod y cyfnod o 24 mis. Mae cwblhau pob carreg filltir yn llwyddiannus yn hanfodol er mwyn cwblhau'r brentisiaeth diploma.

85. Mae diffoddwyr tân RDS sy'n datblygu yn cyflawni asesiadau bob chwe mis er mwyn symud ymlaen i statws cymwys.

86. Mae pob diffoddwr tân newydd, amser llawn, sy'n ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth yn cael eu hasesu'n barhaus, yn wahanol i raglenni cyfatebol yn Lloegr sydd â threfniadau 'asesu diwedd pwynt'. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd yn gweithio mewn partneriaeth â'i ddarparwr hyfforddiant lleol i sicrhau bod y rhaglen ddatblygu nid yn unig yn ateb gofynion y fframwaith prentisiaeth, ond hefyd b od gweinyddiaeth y rhaglen yn bodloni gofynion arolygu llym Estyn. Mae'r Gwasanaeth yn destun sicrwydd ansawdd allanol gan SFJ EQA yn ogystal â chan arolygwyr Estyn. Mae diffoddwyr tân amser llawn yn cwrdd â'r prif aseswr mewnol o leiaf bob chwe wythnos.

87. Mae cyn-ddiffoddwyr tân RDS sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân amser llawn yn dilyn yr un llwybr datblygu â phrentisiaid, ac er nad ydynt yn cofrestru â'r darparwr addysg lleol, maent wedi'u cofrestru drwy ganolfan achrededig Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd ar gyfer y cymhwyster diploma. Cefnogir cynnydd yn unol â'r cymhwyster drwy'r ganolfan achrededig a rhwydwaith aseswyr lleol.

88. Mae diffoddwyr tân RDS yn dilyn rhaglen ddatblygu bwrpasol sy'n targedu gweithgareddau penodol i'w cynnal sy'n arwain at gyflawni'r wybodaeth a deall agweddau ar fap rôl diffoddwyr tân (ac eithrio gyrru). Yn ogystal â chyflwyniadau tystiolaeth mae diffoddwyr tân RDS yn cael asesiadau mewn gorsafoedd ar ôl 6, 12 a 18 mis. Mae'r asesiadau hyn wedi'u graddoli o ran cymhlethdod ac maent yn ymdrin ag ystod eang o sgiliau ymarferol a gofynion gwybodaeth am rôl diffoddwyr tân.

## Cynnal Cymhwysedd (Cam 3)

89. Nodwyd y problemau sylweddol canlynol o'r adolygiad bwrdd gwaith, y cyfweliadau dilynol ac ymweliadau â gorsafoedd:

i. Dadansoddiad o'r amser y mae'n ofynnol i ddiffoddwyr tân ei gael ar gyfer hyfforddiant
ii. Dim digon o amser ar gael ar gyfer yr hyfforddiant sydd ei angen
iii. Y cydbwysedd rhwng hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol
iv. Dim dull safonol na chyson o ymdrin â hyfforddiant ymarferol
v. Pellteroedd teithio i leoliadau hyfforddi'r Gwasanaeth
vi. Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol
vii. Effaith argaeledd RDS ar hyfforddiant amser llawn
viii. Dibyniaeth ar griwiau amser llawn i gefnogi'r RDS

## i) Dadansoddiad o'r amser y mae'n ofynnol i ddiffoddwyr tân ei gael ar gyfer hyfforddiant

90. Roedd fy ngohebiaeth dyddiedig 15 Mawrth yn argymell bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o faint o amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i gynnal yr holl ofynion cymhwysedd craidd ac ychwanegol. Hyd nes ac oni bai fod hynny wedi'i gwblhau, nid yw'n bosibl nodi'n bendant a oes digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant ar gyfer RDS neu o fewn y trefniadau gwaith shifft neu griwiau dydd presennol.

91. Dim ond un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub sydd wedi gwneud dadansoddiad o faint o amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant, ac maent wedi penderfynu fod angen 98 awr y flwyddyn. Yn fy marn i, amcan y dadansoddiad hwn oedd cefnogi'r achos i symud o ddwy awr fesul noson ymarfer RDS i dair awr. Er bod hwn yn amcan cwbl gymeradwy, rwyf o'r farn nad oes modd cyfiawnhau canlyniad y dadansoddiad.

92. Defnyddiwyd barn broffesiynol arbenigwyr pwnc y Gwasanaethau Tân ac Achub i ganfod y ffigur 98 awr. Mae'r dadansoddiad yn cydnabod bod y 98 awr yn cael eu cyfrifo ar sail gweithgareddau cydamserol ac nid yw'n ystyried "gwahanol ddulliau o ddarparu hyfforddiant na'r oedi naturiol a geir wrth rhyngweithio â phobl". Mae hefyd yn cydnabod nad yw'r dadansoddiad yn ymestyn i'r meysydd sgiliau ychwanegol a amlygwyd yn flaenorol a bod y rhain yn arwain at alw ychwanegol am hyfforddiant. Enghraifft o weithgareddau cydamserol yn y cyd-destun hwn yw senario sy'n cwmpasu nifer o feysydd cymhwysedd i'w cyflawni gan un neu fwy o griwiau, fel tân sydd wedi'i ddatblygu'n bell mewn adran ble mae pobl y mae angen eu hachub. Enghraifft o oedi naturiol fyddai hyfforddiant sy'n cael ei darfu gan ymweliadau â'r orsaf neu alwad tân. Nid oes cyfeiriad penodol yn yr adroddiad sy'n nodi canfyddiadau'r dadansoddiad o ran yr amser a neilltuir i adrodd yn ôl ac unrhyw drafodaethau proffesiynol sy'n ymwneud â'r asesiad.

93. Ar ôl cynnal yr un dadansoddiad yn y gorffennol, yn fy marn i, er bod gweithgarwch ar yr un pryd yn sicr yn cynnig cyfle i hyfforddi ac asesu, mae ganddo

rai cyfyngiadau sylweddol. Yn ei hanfod, mae'n cynnwys nifer o gymwyseddau sy'n anodd iawn eu hasesu'n drylwyr ar eu pen eu hunain, yn enwedig os oes llawer o gyfranogwyr a dim ond un asesydd, sy'n digwydd yn aml gyda hyfforddiant ar y safle. Hefyd, yn ei hanfod, mae'n cynnwys criw o ddiffoddwyr tân, ac felly dim ond yn y dasg y maent yn ei chyflawni ar adeg benodol y gall pob diffoddwr tân ddangos cymhwysedd, ac nid yn y tasgau y mae eraill yn eu cyflawni.

94. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, ei bod yn rhaid ailadrodd y senario sawl gwaith er mwyn cynnal asesiad ystyrlon o bob diffoddwr tân unigol ar draws sawl maes cymhwysedd, gan ymestyn yn sylweddol yr union amser sydd ei angen. Mae'r amser hwn yn cael ei ymestyn ymhellach wrth ystyried ôl-drafodaethau ac adborth ar asesiadau.

95. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y De wedi creu nodyn cyfarwyddyd cynhwysfawr ar pdrPro sy'n cynnwys cymal penodol sy'n nodi y dylai hyfforddiant risg-uchel gael ei "gynnal ar sawl achlysur mewn hyfforddiant cam-wrth-gam chwarterol i gynnwys yr holl aelodau gwylio". Rwyf yn gwneud sylw pellach ar y nodyn cyfarwyddyd hwn o dan y pennawd 'Dim dull safonol neu gyson o hyfforddi ymarferol', ond rwyf o'r farn ei fod yn ganllaw cadarn a fyddai'n effeithiol iawn pe bai'n cael ei gefnogi gan adnoddau hyfforddi ymarferol cynhwysfawr fel y disgrifir ymhellach yn yr adran hon.

**Argymhelliad 2 (a): bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi ac yna i gael eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol a'r amrywiaeth o arferion a thechnegau safonol sy'n rhan o'r meysydd cymhwysedd craidd.**

**Argymhelliad 2 (b): bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi ac yna i gael eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol a'r amrywiaeth o arferion a thechnegau safonol sy'n rhan o'r meysydd cymhwysedd ychwanegol.**

## ii) Dim digon o amser ar gael ar gyfer yr hyfforddiant sydd ei angen

96. Cafodd y mater hwn ei godi'n uniongyrchol neu ei grybwyll sawl gwaith yn ystod yr ymweliadau â'r orsaf, yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, mewn perthynas â'r RDS.

97. Roedd y sylwadau'n cynnwys "mae llawer mwy o alw am hyfforddiant nawr o gymharu â phan wnes i ymuno gyntaf" a gafodd ei ailadrodd sawl gwaith ac ar draws yr holl systemau dyletswydd. Gwnaed nifer o sylwadau hefyd am y galw ychwanegol am hyfforddiant yn sgil cynnal sgiliau offer arbennig ac achub o ddŵr.

98. Sylwyd hefyd bod y sefyllfa'n gwaethygu pan ychwanegir y galw am hyfforddiant ychwanegol y tu allan i'r hyfforddiant craidd, fel diweddariadau i Weithdrefnau Gweithredol Safonol neu ofynion hyfforddi ar gyfer diffoddwyr tân sy'n datblygu.

99. Fel y dywedwyd yn flaenorol, nid yw'n bosibl cael safbwynt pendant hyd nes y bydd canlyniad dadansoddiad heb gyfyngiadau yn hysbys. Wedi dweud hynny, credaf y gellir dod i nifer o gasgliadau yn rhesymol ar hyn o bryd.

100. O dan y trefniadau cytundebol presennol sydd ar waith yng Nghymru, mae diffoddwyr tân sy’n rhan o’r RDS yn cael 2-3 awr yr wythnos ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau ac asesiadau. Mae hyn yn cael ei ategu ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub gan oriau ychwanegol ar gyfer hyfforddi ac ymarfer. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Tân ac Achub y De yn dyrannu hyd at 16 awr ychwanegol i bob diffoddwr tân ar gyfer hyfforddiant RDS bob blwyddyn. Mae diffoddwyr tân RDS hefyd yn mynychu cyrsiau gloywi achlysurol ar gyfer meysydd cymhwysedd risg-uchel penodol, megis Cyfarpar Anadlu.

101. Mae pob un o’r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhagweithiol o ran sicrhau bod cymaint o amser â phosibl yn cael ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant RDS. Dylid canmol cymorth gweithwyr shifft a chriwiau dydd, sydd yn fwyaf nodedig lle mae pwmp RDS wedi’i leoli ar neu wrth ymyl gorsaf shifft neu orsaf criw dydd. Mae enghreifftiau o gymorth o’r fath yn cynnwys cynnal sefyllfaoedd hyfforddi ymarferol ac integreiddio criw’r RDS mewn ymarferion aml-bwmp.

102. Roedd ymatebion y Gwasanaethau Tân ac Achub i’r adolygiad thematig o ehangu’r rôl yn dangos bod diffoddwyr tân sy’n rhan o’r system criwiau dydd yn cael dyraniad o hyd at 13 awr fesul taith ddyletswydd ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau ac asesu, a bod diffoddwyr tân sy’n rhan o’r system shifftiau yn cael dyraniad o hyd at 6 awr fesul taith ddyletswydd. Mae’r amrywiad rhwng systemau dyletswydd yn sylweddol. Mae tua 11 awr o wahaniaeth rhwng RDS a chriwiau dydd. Gan fod rôl graidd y diffoddwyr tân yr un fath ar hyn o bryd ar draws yr holl systemau dyletswydd, ni ellir dweud bod yr holl ddyraniadau’n ddigonol.

103. Yr hyn y gallaf ei ddweud yn hyderus yw, os bydd criwiau, fel yr awgrymwyd yn ystod un o’r ymweliadau â gorsaf shifftiau, yn ymgymryd â hyfforddiant ac yn ymarfer mwy na’r hyn a nodir yn y dadansoddiad adolygiad thematig o ehangu’r rôl, yna mae’n rhaid iddo fod ar draul gweithgarwch lleihau risgiau, fel ymweliadau diogelwch â chartrefi a chasglu gwybodaeth am risgiau penodol i’r safle.

104. Rwyf yn dweud hynny, gan fod y cyfyngiadau ar y system shifftiau bresennol yn golygu mai dim ond hyn a hyn o amser sydd ar gael. O’r 36 awr sydd ar gael mewn contract 42 awr yn y drefn gwaith system shifftiau bresennol (sy’n cyfrif am 6 awr o egwylion bwyd statudol), dim ond 18 awr (50%) sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant, ymarfer neu leihau risgiau, gyda’r gweddill yn cael eu dyrannu i gyfnodau gorffwys neu astudiaeth breifat. Felly, os bydd criwiau’n ymgymryd â mwy o hyfforddiant ac ymarfer, mae ganddynt lai o amser ar gyfer gweithgarwch lleihau risgiau. Mae’r un peth yn wir am griwiau dydd, er bod yr effaith yn debygol o fod yn llai difrifol gan fod mwy o amser ar gael yn gyffredinol.

105. O ran yr RDS, mae ymarfer meincnodi syml gyda’r amser a ddyrannwyd mewn contractau eilaidd ar gyfer gallu Chwilio ac Achub Trefol Cymru yn amlygu’r mater yn glir.

106. Mae technegwyr Chwilio ac Achub Trefol Cymru yn cael eu talu am 192 awr ychwanegol o hyfforddiant o fewn eu contract eilaidd. Penderfynwyd ar y ffigur hwn drwy astudiaeth amser a symud a gynhaliwyd gan y gallu Chwilio ac Achub Trefol NRAT, wrth ddatblygu'r fframwaith cynnal cymhwysedd.

107. Mae ehangder yr wyth maes sgiliau craidd diffodd tân yn fwy na'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn fframwaith cynnal cymhwysedd Chwilio ac Achub Trefol, ond eto mewn un Gwasanaeth Tân ac Achub dyrannwyd 98 awr i'r cyntaf a 192 awr i'r ail. Nid oes modd cyfiawnhau hyn.

### iii) <u>Y cydbwysedd rhwng hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol</u>

108. Ar nifer o'r ymweliadau â gorsafoedd, codwyd pwynt ynglŷn â faint o hyfforddiant damcaniaethol sydd o'i gymharu â hyfforddiant ymarferol. Y pwynt oedd bod gormod o hyfforddiant damcaniaethol a oedd ar draul hyfforddiant ymarferol gan fod yr amser a oedd ar gael yn gyfyngedig. Codwyd perthnasedd y cynnwys damcaniaethol hefyd ar ddau o'r ymweliadau â gorsafoedd RDS. Roedd un enghraifft benodol yn ymwneud â diffodd tân mewn mannau uchel iawn, pan nad oedd unrhyw adeiladau uchel iawn yn neu'n agos at ardal yr orsaf.

109. Ar ôl myfyrio ar y sylwadau hyn, rwyf o'r farn bod y mater hwn yn crynhoi'r her o geisio roi hyfforddiant i ddiffoddwyr tân RDS mewn ystod lawn o dactegau a thechnegau mesur rheoli o fewn amser cyswllt cyfyngedig.

110. Fel y nodwyd yn flaenorol, er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Reoliad 3 o'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddefnyddio'r datganiadau rheoli peryglon a risgiau yn y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol i lywio eu Hasesiad Risg Gweithredol lleol ar gyfer pob math o ddigwyddiadau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Dylai'r Asesiad Risg Gweithredol nodi'r tactegau a'r technegau mesur rheoli y byddant yn eu defnyddio i ddelio â'r digwyddiad. Dylai'r tactegau a'r technegau mesur rheoli hyn fod yn sail i'r caffael cychwynnol ac yna hyfforddiant cynnal parhaus.

111. Mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw Wasanaeth Tân ac Achub yn unrhyw le yn y DU yn gallu sicrhau canlyniad lle mae'r un faint o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer hyfforddiant RDS â sy'n cael ei neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer eu cydweithwyr amser llawn. Er bod Gwasanaeth Tân ac Achub y De yn darparu hyd at 16 awr ychwanegol y flwyddyn ar gyfer hyfforddiant, mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin wedi cytuno ar awr yn ychwanegol ar gyfer nosweithiau ymarfer, ac mae diffoddwyr tân RDS ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu cyrsiau hyfforddiant gloywi a ddarperir yn ganolog o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn dal yn is o lawer na'r amser sydd ar gael i griwiau dydd a'r system shifftiau ar gyfer hyfforddi ac ymarfer ar gyfartaledd dros flwyddyn.

112. Felly, ac yn fy marn i, yr unig opsiwn realistig sydd ar gael i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yw cymryd yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel dull haenog o ymdrin â'u gallu i ymateb. Fel yr argymhellwyd yn flaenorol, dim ond ar ddiwedd y dadansoddiad heb gyfyngiadau y gellid gwneud hyn, gan mai dim ond bryd hynny y byddai gan y Gwasanaethau Tân ac Achub werth amser hyfforddi ac asesu ar gyfer pob tacteg a thechneg mesur rheoli.

113. Byddai angen i'r Gwasanaethau Tân ac Achub nodi'r tactegau a'r technegau mesur rheoli yn eu Hasesiadau Risg Gweithredol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw i ddarparu gallu i ymateb cychwynnol ar draws yr ystod o wahanol fathau o ddigwyddiadau tebygol mewn unrhyw orsaf benodol, hyd at yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant RDS. Y tactegau a'r technegau mesur rheoli hyn sydd wedi'u blaenoriaethu a fyddai'n sail i raglen hyfforddi cynnal sgiliau gychwynnol a pharhaus yr RDS. Mewn cyd-destun diffodd tân, ar gyfer tân mewn adeilad – gallai hyn ymestyn i dân allanol ac yna tân mewnol cychwynnol nad oedd yn cynnwys chwiliadau treiddio dwfn, neu ddefnyddio Cyfarpar Anadlu neu ganllawiau am gyfnod estynedig oherwydd na fyddai digon o amser ar gael i ddiffoddwyr tân RDS gynnal cymhwysedd yn y tactegau mesur rheoli hynny. Mewn senario Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffordd, gallai ymestyn i dynnu drws/to a rholio/codi dashfwrdd car ar gyfer technegau rhyddhau/creu mwy o le.

114. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddai tactegau a thechnegau mesur rheoli a ddefnyddir gan yr RDS yn union yr un fath â'r hyn a ddefnyddir gan ddiffoddwyr tân amser llawn. Byddai'r amser hyfforddi ychwanegol sydd ar gael ar gyfer diffoddwyr tân amser llawn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cymhwysedd mewn tactegau a thechnegau mesur rheoli sy'n ychwanegol at y rheini a ddefnyddir yn y gallu i ymateb cychwynnol gan yr RDS. Mewn trafodaethau gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cadarnhawyd y byddai'r dull hwn, pe bai'n cael ei seilio ar asesiad cadarn o'r risg i ddiffoddwyr tân, yn cyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdodau Tân ac Achub o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

**Argymhelliad 3: dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddefnyddio canlyniad y dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau i flaenoriaethu'r tactegau a'r technegau mesur rheoli o'u Hasesiadau Risg Gweithredol a fydd yn cael eu defnyddio gan yr RDS ar sail yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant.**

## iv) <u>Dim dull safonol na chyson o ymdrin â hyfforddiant ymarferol</u>

115. Mae'r system cofnodi cymhwysedd pdrPro ym mhob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn cyd-fynd â'r wyth maes sgiliau craidd sy'n ffurfio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae safonau gwybodaeth a dealltwriaeth ac ymarferol Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Sgiliau er Cyfiawnder yn cynnwys meini prawf perfformiad unigol wedi'u rhagddodi â 'K' (gwybodaeth a dealltwriaeth) neu 'P' (ymarferol).

116. Dyma enghraifft o'r safonau gwybodaeth a dealltwriaeth:

### *Gwybodaeth a dealltwriaeth*

*K1 anatomi a ffisioleg anadlu mewn perthynas â defnyddio cyfarpar anadlu*
*K2 effeithiau ymdrech mewn perthynas â defnyddio aer a defnyddio cyfarpar anadlu*
*K3 sut mae'r set cyfarpar anadlu yn rheoli aer sy'n cael ei anadlu i mewn ac allan*
*K4 galluoedd a chyfyngiadau'r set cyfarpar anadlu*
*K5 nodweddion gweithredu:*
*K5.1 y set cyfarpar anadlu*

*K5.2 offer ategol*
*K5.3 offer cyfathrebu*
*K5.4 offer recordio rheoli mynediad cyfarpar anadlu*

*K6 y profion a'r gwiriadau sy'n berthnasol i'r set cyfarpar anadlu a'i chyfarpar ategol*
*K7 rôl a chyfrifoldebau gweithredwr rheoli cyfarpar anadlu*
*K8 systemau rheoli cyfarpar anadlu a sut i'w defnyddio*
*K9 egwyddorion diffodd tân ac ymddygiad tân mewn:*
*K9.1 tanau mewn adrannau*
*K9.2 tanau mewn adeiladau*

117. Dyma enghraifft o'r safonau ymarferol:

***Gweithio mewn ardaloedd risg mewn digwyddiadau gweithredol lle mae angen cyfarpar anadlu***

*P6 llywio o fewn yr ardal risg gyda'r tîm*
*P7 cynnal y cyfathrebu ynghylch cynnydd a statws gyda'r tîm, timau eraill, cadlywydd digwyddiadau a rheoli mynediad cyfarpar anadlu*
*P8 cyflawni dyletswyddau ymateb dynodedig o fewn yr ardal risg:*
*P8.1 defnyddio offer oeri mewn adrannau sy'n agos at dân*
*P8.2 gosod cyfyngiant a diffodd yn yr adran lle mae tân*
*P8.3 defnyddio dulliau cymeradwy i chwilio am bobl wedi'u hanafu*
*P9 monitro mesurydd pwysedd ei gyfarpar anadlu ei hun i bennu ei amser ei hun ar gyfer tynnu allan*
*P10 tynnu allan o'r ardal risg a mynd drwy'r rheolaeth mynediad cyfarpar anadlu gyda'r tîm*

118. Mae elfennau gwybodaeth a dealltwriaeth y safonau'n cael eu cwmpasu i raddau helaeth drwy becynnau hyfforddiant theori learnPro a thrwy gyfeirio at Weithdrefnau Gweithredol Safonol a Chanllawiau Sylfaenol Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar gyfer Cyfarpar Anadlu a Rheoli Digwyddiadau.

119. Nid yw pob un o'r safonau ymarferol yn benodol a gall rhai, fel yr enghraifft uchod, gael eu dehongli'n eang. Er enghraifft, mae P8.1, P8.2 a P8.3 yn ymdrin â nifer o dactegau a thechnegau mesur rheoli.

120. Yr hyn a oedd yn amlwg yn ystod ymweliadau â'r gorsafoedd oedd y gwahanol ddehongliadau a dulliau o ddatblygu senarios ymarferol gan wahanol swyddogion gwylio. Nid beirniadaeth o'r swyddogion hynny yw hyn, ond ar y naw ymweliad sylwais ar sawl dull gwahanol – sy'n arwain at ddiffyg safoni o fewn ac ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub. Rwyf wedi sylwi o'r blaen, er bod y gofyniad i gynllunio ac asesu gweithgareddau yn dod o dan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Criw a Rheolwyr Gwylio, nid yw pob swyddogion gwylio wedi cymhwyso mewn/â chefndir hyfforddi ac asesu.

121. Yn fy marn i, mae yna angen cymhellol i ddarparu'r adnoddau gorau posibl i swyddogion gwylio i'w cynorthwyo i ddarparu hyfforddiant ac asesiadau safonol a chyson mewn gorsafoedd. Yn gysylltiedig â hynny, mae angen hefyd ffordd o roi sicrwydd i brif swyddogion bod hyfforddiant o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu'n

barhaus mewn ffordd gyson ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub, ac iddynt gael eu dwyn i gyfrif am hynny.

122. Mae nodyn canllaw pdrPro Gwasanaeth Tân ac Achub y De yn rhoi amlinelliad bras o'r mathau o weithgareddau sydd i'w cynnal mewn sefyllfaoedd hyfforddi ymarferol. Mae hwn yn fan cychwyn da, ond mae angen iddo fod yn gysylltiedig ag adnoddau hyfforddi ymarferol tebyg i'r rhai a ddarperir ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth ar lwyfan learnPro, er mwyn bod yn gwbl effeithiol.

123. Mae yna Wasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr sydd wedi cynhyrchu, fel cymorth hyfforddi ac asesu, gweithdrefnau gweithio safonol a chyson ar gyfer pob eitem o offer yn eu peiriannau tân, yn seiliedig ar yr arferion safonol sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Gwelsom dystiolaeth o rywbeth tebyg iawn i hyn ar un ymweliad â gorsaf yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin, er y dywedwyd wrthym fod yr adnodd yn dyddio'n ôl i'r strwythur rhanbarthol blaenorol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio bellach. Serch hynny, roedd yn ymddangos yn adnodd rhagorol i ddiffoddwyr tân a swyddogion gwylio fel ei gilydd.

124. Mae hyfforddwyr Cyfarpar Anadlu Gwasanaeth Tân ac Achub y De wedi cyflwyno'r egwyddor o wersi micro y maent wedi'u ffilmio a'u rhoi ar fewnrwyd y Gwasanaeth, fel adnodd dysgu. Rwy'n ymwybodol bod adnoddau tebyg wedi cael eu datblygu yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd hefyd. Yn fy marn i, mae hyn yn mynd â'r cymhorthion hyfforddi y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol i'r lefel nesaf. Yn ei hanfod, mae'r gwersi micro yn enghraifft o arferion gorau o ran tacteg neu dechneg mesur rheoli sy'n cael ei ffilmio fel arweiniad cam-wrth-gam i sesiwn hyfforddi ymarferol ar y safle. Mae hwn yn gynnyrch rhagorol y dylid ei ymestyn i gynnwys yr ystod lawn o dactegau mesur rheoli nad ydynt yn cael eu nodi ar hyn o bryd fel arfer safonol na thechneg yn y Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu.

125. Byddai'r criwiau'n gwylio'r hyn a ddylai fod yn enghraifft o arferion gorau o ran tacteg neu dechneg mesur rheoli ac yna byddent yn ei ymarfer fel rhan o sesiwn hyfforddi strwythuredig, y gallai swyddog gwylio wedyn ei asesu. Byddai hyn yn gymorth hyfforddi ac asesu rhagorol i swyddogion gwylio a rheolwyr canol fel ei gilydd, a fyddai'n sicrhau lefel o gysondeb a safoni o ran sut mae tactegau a thechnegau mesurau rheoli yn cael eu defnyddio.

126. Ni ddylai datblygu gwersi micro fod yn rhy feichus oherwydd dylai cynlluniau gwersi a chanlyniadau dysgu fodoli eisoes ar gyfer hyfforddiant caffael sgiliau cychwynnol. Mae adnoddau rhyngwladol rhagorol tebyg iawn hefyd ar gael yn rhad ac am ddim ar y rhyngrwyd y gallai'r Gwasanaethau Tân ac Achub eu defnyddio[4].

127. Gallai gwersi micro, ochr yn ochr ag arferion a thechnegau safonol, hefyd fod yn destun astudiaeth amser a symud a fyddai'n rhoi sail empirig i bennu faint o amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant cynnal cymhwysedd.

**Argymhelliad 4: dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddatblygu gwersi micro ar gyfer pob tacteg neu dechneg mesur rheoli nad yw eisoes wedi'i chynnwys yn Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.**

---

[4] Hose Stream Mechanics | UL's FSRI – Fire Safety Research Institute

**Mae hyn yn rhywbeth y dylid ei wneud ar sail Cymru gyfan i osgoi dyblygu ymdrechion ac i sicrhau safoni, cysondeb a rhyngweithrededd.**

## v) Pellteroedd teithio i leoliadau hyfforddi'r Gwasanaeth

128. Codwyd y mater hwn sawl gwaith yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd, ond ni chafodd ei godi fel mater yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y De.

129. O ystyried y ddaearyddiaeth, nid yw hyn yn syndod. Mae lleoliadau academïau hyfforddi Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd, yn Earlswood a Dolgellau, yn deillio o uno'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn 1996. Er bod Earlswood yn agos at y canolfannau poblogaeth mwy (ac felly gorsafoedd tân llawn amser) yn Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Llanelli, mae gryn bellter i ffwrdd oddi wrth orsafoedd ym Mhowys a Cheredigion. Mae Dolgellau gryn bellter o'r holl ganolfannau poblogaeth mawr yn y Gogledd.

130. Mae nifer o gyfleusterau hyfforddi ar gael mewn gorsafoedd ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r rhain yn amrywio o dyrau hyfforddi safonol i adeiladau â chynllun mewnol y gellir ei newid ac y gellir defnyddio mwg cosmetig ynddynt ar gyfer hyfforddiant Cyfarpar Anadlu. Y broblem fwyaf yw lleoliad Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol a chyfleusterau tân byw eraill.

131. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn sicr yn her a allai olygu buddsoddiad cyfalaf sylweddol o ran cyfalaf. Ystyriaf hyn yn fanylach yn yr adran ganlynol, ond mae'n ymddangos mai'r ateb mwyaf priodol fyddai dull prif ganolfan a lloerennau gyda lleoliad hyfforddi canolog, wedi'i gefnogi gan leoliadau lloeren sy'n cyfuno cyfleusterau presennol â datblygu cyfleusterau hyfforddi tân byw newydd.

## vi) Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol

132. Roedd ddiffoddwyr tân ar draws y tair system ddyletswydd yn dweud nad yw Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol yn adlewyrchu amodau tân go iawn.

133. Credir yn eang fod Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU wedi deillio o hysbysiadau gorfodi a roddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i Frigâd Dân Gwent (Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru erbyn hyn), yn dilyn marwolaethau dau ddiffoddwr tân mewn tân yn 14 Zephaniah Way ym Mlaenau ar 1 Chwefror 1996. Er y gallai'r camau gorfodi a gymerwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod wedi dylanwadu ar ddatblygiad Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol, mae ei wreiddiau'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn digwyddiad Blaenau – i ymchwil a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref ym 1994 (adroddiad FRDG 5/1994: *A survey of backdrought – main report*[5] ac adroddiad FRDG 6/1994: *A survey of fire ventilation*[6]). Yr adroddiadau hyn yn bennaf a gyfrannodd at gynnwys y *Manual of Firemanship* (*A Supplement*): *The Behaviour of Fire – Compartment Fires,* a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1995 a'r *Manual of*

[5] A Survey of Backdraught (ukfrs.com)
[6] A Survey of Fire Ventilation (ukfrs.com)

*Firemanship (A Supplement): The Behaviour of Fire – Tactical Ventilation of Buildings and Structures*, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ym 1996. Cafodd y ddau atodiad eu cyfuno wedyn yn *HMFSI Fire Service Manual; Compartment Fires and Tactical Ventilation* a gyhoeddwyd ym 1997. Mae'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol presennol – '*Fires and firefighting'* yn dal i fod yn seiliedig i raddau ar Lawlyfr 1997.

134. Fel arfer, cynhelir Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol mewn un cynhwysydd ISO neu mewn mwy nag un cynhwysydd, lle mae tân go iawn wedi'i leoli yn y cynhwysydd/cynwysyddion ac mae diffoddwyr tân yn ymarfer symud ymlaen trwy'r cynhwysydd/cynwysyddion gan ddefnyddio technegau oeri nwy (pylsio yn bennaf gan ddefnyddio patrwm chwistrellu i oeri'r nwyon hylosg sy'n cronni tuag at dop yr adran ac yn pelydru gwres am i lawr). Fel arfer, bydd y llwytho tân yn golygu pentyrru nifer o baledau ar ben ei gilydd neu osod darnau o bren mewn rhesel gyda byrddau ffeibr yn hongian ar gadwyni i efelychu deunyddiau wal a nenfwd. Y gyfradd rhyddhau gwres fydd yr hyn sy'n gysylltiedig â thân cegin arferol ac mae'n bosibl na fydd yn fwy na 1.5 megawat (MW).

135. Gall cyfradd rhyddhau gwres soffa 3 sedd neu wely dwbl modern fod hyd at 5MW, sy'n llawer mwy na'r hyn a gynhyrchir yn ystod Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol, ar hyn o bryd. Nid yw'n syndod felly bod diffoddwyr tân sy'n mynd i danau sydd wedi datblygu'n llawn mewn ystafelloedd byw neu ystafelloedd gwely yn dweud eu bod yn profi amodau sy'n wahanol iawn i'r rheini y maent wedi'u profi mewn hyfforddiant. Dywedodd un diffoddwr tân nad oedd yr hyfforddiant yn berthnasol i realiti, tra'r oedd un arall yn ei gymharu â phrawf gyrru yr oedd yn rhaid ei basio, ond nad oedd yn rhoi profiad digonol o amodau yn y byd go iawn.

136. Bydd hyn yn cael ei waethygu gan yr hyn a adroddwyd yn eang yn ystod yr ymweliadau â gorsafoedd fel defnyddio riliau pibell pwysedd uchel yn "ddiofyn" (yn hytrach na phrif ganghennau) ar gyfer tân cychwynnol gan fod cyfradd y llif sydd ar gael (tua 100 litr y funud) ymhell islaw yr hyn sydd ei angen i atal tân mor ddwys, yn enwedig wrth ddefnyddio techneg pylsio i oeri nwy.

137. Mae hyn, a'r hanesion a ddywedwyd ynglŷn ag awyru tactegol ac yn arbennig tân pwysedd positif (awyru gorfodol mewn adran lle mae tân wedi'i leoli fel tacteg bwriadol) yn achos pryder gwirioneddol i mi, yn rhannol am fy mod wedi gwneud argymhelliad yn ymwneud â chyfraddau llif tactegol yn Adolygiad Thematig Argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell 2020[7].

138. Dangoswyd bod tactegau o'r fath yn beryglus iawn pan nad oes ymosodiad dŵr sylweddol ar yr un pryd, neu pan nad yw'r fent am allan yn fwy o faint na'r fent am i mewn yn achos ymosodiad pwysedd positif.

139. Gall defnyddio'r tactegau hyn achosi datblygiad cyflym a sylweddol mewn tân a reolir gan awyru a gall greu llwybr llif a all fod yn angheuol i ddiffoddwyr tân, fel digwyddodd gyda'r tân yn Shirley Towers yn Southampton yn 2010 ac mewn

[7] Adolygiad thematig y Prif Gynghorydd Tân ac Achub: dysgu o argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell | LLYW.CYMRU

digwyddiadau eraill ledled y byd. Rwyf yn pryderu bod y tactegau hyn yn dal i fod yn eang ac nad ydynt yn cael eu nodi drwy brosesau sicrwydd gweithredol[8].

140. I fod yn deg â'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, y mater sylfaenol yma yw cynnwys y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol sy'n bodoli'n barod – Tanau a diffodd tân. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cynnwys y canllawiau yn dal i fod yn seiliedig i raddau helaeth ar Lawlyfr Gwasanaeth Tân HMFSI; Compartment Fires and Tactical Ventilation a gyhoeddwyd ym 1997 ac yn seiliedig ar ymchwil a wnaed tua 28 mlynedd yn ôl ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

141. Mae deunyddiau a chynnwys adeiladau wedi newid yn sylweddol ers yr ymchwil y mae Llawlyfr y Gwasanaeth Tân wedi'i seilio arno ac mae'n cynnwys llawer mwy o ddeunyddiau synthetig a lefelau inswleiddio uwch er mwyn arbed ynni. Mae ymchwil ryngwladol wedi dangos bod cyfraddau rhyddhau gwres o ddeunyddiau synthetig yn sylweddol uwch na'r hen ddeunyddiau. Mae ymchwil ryngwladol hefyd wedi dangos bod y technegau oeri nwy sy'n cael eu hargymell yng Nghanllawiau Gweithredol Cenedlaethol y DU sy'n bodoli eisoes yn llai effeithiol ac yn anoddach i'w cyflawni na thactegau diffodd tân traddodiadol, fel mapio dŵr ffrydiau syth. Yn hollbwysig, mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn yr Unol Daleithiau wedi symud i ffwrdd oddi wrth y technegau awyru sy'n cael eu hargymell yn y canllawiau gan fod ymchwil wedi cwestiynu eu diogelwch a'u heffeithiolrwydd.

142. Mae ymgynghoriad ar gynnwys y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol – Tanau a diffodd tân, wedi dod i ben yn ddiweddar felly mae cyfle i ddiweddaru'r canllawiau yn sgil yr ymchwil rhyngwladol a chyhoeddi NFPA 1700 Guide to structural firefighting (fersiwn yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb i Tanau a diffodd tân) a ddylai wedyn arwain at adolygiad o dactegau diffodd tanau ar draws Gwasanaethau Tân ac Achub y DU.

143. Beth bynnag, mae canfyddiadau'r ymchwil rhyngwladol ar gael i dri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru ac mae wedi cael ei rannu â nhw. Felly, dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried yr ymchwil hwn wrth ystyried pa mor briodol yw eu tactegau mesur rheoli presennol ac unrhyw hyfforddiant cysylltiedig.

144. Gall fod yn anodd efelychu amodau tebyg i dân adrannol go iawn sydd wedi datblygu'n llawn o fewn y cyfleusterau Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol presennol, yn bennaf oherwydd yr heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â llosgi deunyddiau synthetig.

145. Mae'n debygol iawn y bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i ddatblygu cyfleusterau Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol newydd lle gellir efelychu amodau go iawn ac sy'n galluogi ddiffoddwyr tân i reoli eu cysylltiad yn briodol er mwyn defnyddio tactegau mesur rheoli sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn amgylchiadau o'r fath.

---

[8] Nid yw fy mhryder yn ymestyn i awyru ar ôl tân sy'n ymddangos fel ei fod yn cael ei ddeall yn dda ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar sail y drafodaeth a gynhaliwyd ar ymweliadau â gorsafoedd.

146. Fodd bynnag, mae gwybodaeth a chanllawiau ardderchog ar gael ar y rhyngrwyd ar adeiladu propiau hyfforddi cost isel ar gyfer datblygu a chynnal sgiliau mapio dŵr[9], heb fod angen tanau byw.

**Argymhelliad 5: bod Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn adolygu eu tactegau a'u technegau mesur rheoli ar gyfer diffodd tanau mewn adrannau yng ngoleuni ymchwil ryngwladol, ac yn diweddaru eu tactegau a'u technegau mesur rheoli yn unol â hynny.**

**Argymhelliad 6: bod Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn adolygu eu maes llafur Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol i ymgorffori unrhyw newidiadau i dactegau mesur rheoli sy'n deillio o'r adolygiad sy'n cael ei grybwyll yn Argymhelliad 6.**

## vii) Effaith argaeledd RDS ar hyfforddiant amser llawn

147. Codwyd y mater hwn sawl gwaith gan griwiau dydd a diffoddwyr tân shifft yng NgwasanaethTân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd, a nododd eu bod yn cael eu hanfon yn rheolaidd ar fyr rybudd i fod wrth gefn mewn gorsafoedd RDS ar ddechrau shifftiau, pan oedd ganddynt hyfforddiant wedi'i gynllunio yn eu gorsaf gartref. Ni chafodd hyn ei godi fel mater yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y De.

148. Wrth holi ymhellach, nododd y diffoddwyr tân fater yn ymwneud ag amseroedd teithio estynedig a oedd yn effeithio ar yr union amser sydd ar gael yn yr orsaf wrth gefn a hefyd y diffyg cyfleusterau hyfforddi yn yr orsaf wrth gefn. Mae'r rhain i gyd yn bwyntiau dilys, ac er y gall criwiau gael rhywfaint o hyfforddiant ymarferol pan fyddant wrth gefn, bydd hyn yn bendant yn dibynnu ar yr amser a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar hyfforddiant diffoddwyr tân amser llawn mewn o leiaf un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

149. Er mai gwella argaeledd RDS yw'r ateb amlwg, rwy'n cydnabod bod hwn yn fater amlochrog ac yn fater y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU wedi cael trafferth yn ei gylch dros nifer o flynyddoedd. Yr unig ddewis arall ymarferol fel yr wyf yn ei weld yw cynyddu nifer y staff amser llawn. Dim ond drwy wneud hynny y gellir gwarantu argaeledd offer.

150. Os neu sut y byddai'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn dewis gwneud hynny yn fater iddynt hwy, ond byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad gael ei lywio gan eu hasesiad risg strategol. Yn syml, pe bai nifer o bympiau RDS sydd wedi'u lleoli'n strategol yn cael eu troi'n griwiau amser llawn, naill ai ar adegau penodol o'r dydd neu am y cyfnod 24 awr llawn, yna nid yn unig y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn cael ei gynnal, ond mae capasiti ychwanegol ar gael i gefnogi hyfforddiant critigol risg ac ymarfer neu weithgarwch lleihau risg.

[9] Hose Stream Mechanics | UL's FSRI – Fire Safety Research Institute

## viii) Dibyniaeth ar Ddiffoddwyr Tân Amser Llawn i gefnogi'r RDS

151. Mae gan bob un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddiffoddwyr tân amser llawn sy'n ymgymryd â chontractau RDS eilaidd, ac mae gan Wasanaeth Tân ac Achub y De dros draean o ddiffoddwyr tân amser llawn sydd hefyd yn darparu gwasanaeth RDS. Mae llawer o fanteision i hyn, yn enwedig o ran hyfforddi a chynnal cymhwysedd.

152. Fodd bynnag, mae yna fater nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddiant ond sydd angen ei godi.

153. Er mwyn rheoli blinder a goblygiadau risg, dylai diffoddwyr tân amser llawn sydd ar y system shifftiau ac sydd hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau RDS wneud hynny ar yr ail a'r trydydd diwrnod rota, sef yr ail a'r trydydd diwrnod oddi ar ddyletswydd ar y system pedwar diwrnod ymlaen, pedwar diwrnod i ffwrdd. Er enghraifft, os yw diffoddwr tân amser llawn wedi gorffen ei shifft nos olaf am 0900 ar fore dydd Llun, ni ddylai ddechrau darparu gwasanaeth RDS tan 0900 fore dydd Mawrth, er mwyn cael 24 awr i ffwrdd o'r gwaith. Dylai hefyd ddod â'i ddarpariaeth RDS i ben am 0900 fore dydd Iau gan y byddai ei shifft amser llawn nesaf yn dechrau am 0900 fore dydd Gwener, gan roi 24 awr rhydd iddo cyn ei ddyletswydd nesaf. Mae polisi Amser Llawn/RDS Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd yn nodi'r amod hwn yn benodol. Mae hefyd yn cael ei gefnogi gan Undeb y Brigadau Tân.

154. Os darperir RDS y tu allan i'r amseroedd hyn, dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau bod mesurau rheoli priodol ar waith i liniaru unrhyw achosion o flinder a risg.

155. Hoffwn gymeradwyo pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub am eu hymdrechion wrth gefnogi pob agwedd ar RDS. Sylwais ar sawl enghraifft o arferion da, ac rwyf wedi crybwyll rhai ohonynt eisoes yn yr adroddiad hwn. Dylid cydnabod bod yr RDS nid yn unig yn ffynhonnell incwm rheolaidd ond hefyd yn ddull y gall unigolion ei ddefnyddio i ddatblygu ystod o sgiliau sy'n gwella eu rhagolygon o ran cyflogadwyedd yn sylweddol, yn aml mewn ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig gyda lefelau uchel o ddiweithdra. Mae hyn yn arbennig o wir gyda chynllun cyflog Gwasanaeth Tân ac Achub y De.

156. Hoffwn hefyd gymeradwyo'r diffoddwyr tân RDS eu hunain. Heb os nac oni bai, mae bod yn aelod o'r RDS yn destun balchder mawr i'r diffoddwyr tân RDS yr wyf wedi cwrdd â hwy. Mae eu hymrwymiad yn eithriadol ac yn haeddu'r clod a'r gydnabyddiaeth uchaf.

## Asesu hyfforddiant yn yr orsaf

### Gwasanaeth Tân ac Achub y De

- Mae hyfforddiant ar y safle yn cael ei asesu a'i roi yn pdrPro gan swyddogion gwylio.

- Mae rheolwyr gorsafoedd sydd wedi'u lleoli mewn gorsafoedd yn goruchwylio gweithgarwch dyddiol gan gynnwys hyfforddiant gyda goruchwyliaeth ychwanegol sy'n cael ei darparu gan reolwyr grŵp sy'n gyfrifol am ardal yr Awdurdod Lleol lle mae'r gorsafoedd wedi'u lleoli.

- Mae'r Tîm Sicrwydd Gweithredol ac Archwilio yn cynnal rhaglen archwilio gorsafoedd ar draws y Gwasanaeth. Mae'r archwiliadau hyn yn ystyried pob agwedd ar berfformiad gan gynnwys hyfforddi ac asesu.

### Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin

- Mae hyfforddiant ar y safle yn cael ei asesu a'i roi yn pdrPro gan swyddogion gwylio.

- Mae gan bob clwstwr o dair gorsaf reolwr gorsaf penodol sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd hyfforddiant y gorsafoedd drwy'r protocol monitro gweithredol. Gwneir hyn drwy arsylwi sesiynau hyfforddi'n uniongyrchol a thrwy graffu ar gofnodion pdrPro.

- Mae archwiliadau adrannol blynyddol yn cael eu cynnal gan dimau rheoli adrannol sy'n ymweld â gorsafoedd i graffu ar gofnodion ac i arsylwi ar weithgareddau hyfforddi gan gynnwys ymarferion tân ac ymarferion gorsafoedd.

- Mae'r Adran Datblygu Pobl neu'r Darparwyr Hyfforddiant yn goruchwylio'r broses asesu ar gyfer diffoddwyr tân sy'n datblygu neu at ddibenion ail-ardystio ar amleddau a bennwyd ymlaen llaw.

### Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd

- Mae hyfforddiant ar y safle yn cael ei asesu a'i roi yn pdrPro gan swyddogion gwylio.

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd wedi ailstrwythuro i dair ardal ddaearyddol ers mis Ebrill 2022. Mae gan bob ardal reolwyr gorsaf dynodedig y mae eu rolau'n ymwneud â sicrwydd gweithredol a hyfforddiant. Mae'r rheolwyr gorsafoedd hyn yn cynnal sicrwydd gweithgareddau hyfforddi yn y gorsafoedd yn ogystal â'r cofnodion archwilio.

- Mae gan bob gorsaf reolwr cymorth dynodedig hefyd. Mae'r rhain yn rheolwyr gwylio, gorsaf neu grŵp arbenigol, sydd â rolau yn ymwneud ag asesu gweithgareddau hyfforddi yn yr orsaf.

- Mae archwiliad blynyddol yn cael ei gynnal gan reolwr yr orsaf neu'r rheolwr grŵp dynodedig, ac mae'n nodi'r staff y mae eu hasesiadau cymhwysed gofynnol wedi dod i ben, drwy edrych yn pdrPro. Maent hefyd yn cynllunio ac yn gweithredu archwiliadau mewn gorsafoedd lle mae'r holl ddogfennau sy'n seiliedig ar yr orsaf yn cael eu hadolygu, ac mae hyfforddiant yn cael ei arsylwi.

- Mae rheolwyr gorsafoedd o'r swyddogaeth risg a gwytnwch yn cynllunio ymarferion aml-bwmp sydd hefyd yn cael eu hasesu.

**Sylwadau**

157. Nid oes problem gyda hyd a lled y broses asesu ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, sy'n cynnwys nifer o haenau ac yn hollgynhwysol. Hyd y gwelaf i, mae'r broblem yn codi o'r diffyg safoni a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â sefyllfaoedd hyfforddi ymarferol a fyddai'n cael sylw sylweddol drwy fabwysiadu Argymhellion 4-6.

158. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd adnoddau hyfforddi ymarferol ar gyfer tactegau a thechnegau mesur rheoli nad ydynt yn rhan o'r Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu. Byddai adnoddau hyfforddi o'r fath hefyd yn gymorth asesu gan eu bod yn rhoi darlun gweledol i'r asesydd o gyflawni tacteg neu dechneg mesur rheoli yn gymwys, gan ddileu cymaint o oddrychedd â phosibl o'r broses.

159. Byddai safoni'r arferion gorau hyn yn rhoi sicrwydd i brif swyddogion bod criwiau'n ymgymryd â hyfforddiant o ansawdd gan ddefnyddio maen prawf asesu sydd wedi'i ddiffinio'n glir. Ar yr amod bod mecanweithiau sicrwydd gweithredol a phrosesau sganio'r gorwel y Gwasanaethau Tân ac Achub yn parhau i fod yn gadarn a bod yr arferion gorau'n cael eu nodi a'u mabwysiadu'n barhaus mewn canllawiau gweithredol, gall prif swyddogion a'r Awdurdodau Tân ac Achub fod yn hyderus eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr.

## Cydnabyddiaeth

160. Diolch i swyddogion arweiniol y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richie Prendergast a’r Rheolwr Ardal Garry Davies o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, y Rheolwr Ardal, Justin Lewis o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a’r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Stuart Millington o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, am eu cefnogaeth i’r adolygiad hwn. Diolch hefyd i’r swyddogion arweiniol a enwebwyd i’n cynorthwyo â’r dadansoddiad cychwynnol o’r dystiolaeth a’r cyfweliadau dilynol.

161. Diolch i swyddogion Tîm Tân Llywodraeth Cymru, Karin Phillips, Steve Pomeroy, Kerry Citric, Lisa Walters, Cerys Myers, Steff Herdman a David Davies, am fy nghynorthwyo ar ymweliadau â gorsafoedd.

162. Yn olaf, diolch i’r diffoddwyr tân a’r swyddogion gwylio ar bob ymweliad â gorsaf. Roedd lefel yr ymgysylltu o’r radd flaenaf yn ogystal â safon eich cyfraniad. Rydych chi i gyd yn glod i’ch Gwasanaeth Tân ac Achub ac i’ch proffesiwn.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1**: bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn sefydlu dull o ddadansoddi anghenion hyfforddi a darparu hyfforddiant sy'n cyd-fynd yn glir ag asesiad rheolaidd o beryglon, risgiau a bygythiadau yn eu hardaloedd. Dylai hwn nodi'r gallu y bernir ei fod yn angenrheidiol i ddarparu ymateb priodol i'r peryglon, y risgiau a'r bygythiadau a nodwyd, a ddylai wedyn fod yn sail i'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi.

**Argymhelliad 2 (a)**: bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi ac yna i gael eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol a'r amrywiaeth o arferion a thechnegau safonol sy'n rhan o'r meysydd cymhwysedd craidd.

**Argymhelliad 2 (b)**: bod y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnal dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar ddiffoddwyr tân i hyfforddi ac yna i gael eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth sylfaenol a'r amrywiaeth o arferion a thechnegau safonol sy'n rhan o'r meysydd cymhwysedd ychwanegol.

**Argymhelliad 3**: dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddefnyddio canlyniad y dadansoddiad heb gyfyngiadau o'r amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau i flaenoriaethu'r tactegau a'r technegau mesur rheoli o'u Hasesiadau Risg Gweithredol a fydd yn cael eu defnyddio gan yr RDS ar sail yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant.

**Argymhelliad 4**: dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddatblygu gwersi micro ar gyfer pob tacteg neu dechneg mesur rheoli nad yw eisoes wedi'i chynnwys yn Llawlyfr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

**Argymhelliad 5**: bod Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn adolygu eu tactegau mesur rheoli ar gyfer diffodd tanau mewn adrannau yng ngoleuni ymchwil ryngwladol, ac yn diweddaru eu tactegau a'u technegau mesur rheoli yn unol â hynny.

**Argymhelliad 6**: bod Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn adolygu eu maes llafur Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol i ymgorffori unrhyw newidiadau i dactegau mesur rheoli sy'n deillio o'r adolygiad sy'n cael ei grybwyll yn Argymhelliad 5.